

Adroddiad gan yr IWA
Ebrill 2021

MAKING
WALES
BETTER



GWNEUD
CYMRU
WELL



Blaenoriaethau Cyfryngau yr IWA i'r Senedd nesaf





Gwybodaeth amdanom ni

Ni yw'r Sefydliad Materion Cymreig, prif felin drafod Cymru.

Rydym yn herio, yn ysbrydoli ac yn ysgogi newid, gan wneud Cymru yn lle gwell i fyw ac i weithio i bawb.

Rydym yn annibynnol o'r llywodraeth a phleidiau gwleidyddol.

Drwy dynnu arbenigwyr o bob cefndir ynghyd, rydym yn sbarduno syniadau uchelgeisiol a gwybodus sy'n sicrhau ymrwymadau gwleidyddol i wella ein democratiaeth, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi.

Rydym yn darparu llwyfannau ar gyfer trafod, cyfleoedd i bobl gael clust i'w lleisiau ac ymchwil sy'n gosod agendâu. Rydym yn cael ein hariannu gan ein haelodau, incwm o'n digwyddiadau a sesiynau hyfforddi, ac yn cael ein cefnogi gan ymddiriedolaethau, sefydliadau a chyrrff cyllido eraill.

Ein gweledigaeth ydy creu Cymru ble gall pawb ffynnu.

I gael rhagor o wybodaeth am yr IWA, ein gwaith polisi a sut i ymuno, naill ai fel cefnogwr unigol neu un sefydliadol, cysylltwch â:

IWA – Y Sefydliad Materion Cymreig, 56 Stryd James, Bae Caerdydd, CF10 5EZ
ffôn: 029 2048 4387 | e-bost: wales@iwa.org.uk | www.iwa.wales

Cyfryngau sy'n cefnogi democratiaeth gryf, hyderus yng Nghymru

Dylai Llywodraeth Cymru:

- 1 greu **cronfa sy'n agored i gystadleuaeth ar gyfer newyddion** annibynnol yn cynnwys o leiaf £1m y flwyddyn
- 2 Gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wella atebolrwydd sefydliadau Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus i'r Senedd trwy **ddatganoli pwerau darlledu penodol**
- 3 Gwneud Cymru Greadigol yn gartref i **strategaeth ar gyfer economi gyfryngau ffyniannus**, sy'n adrodd straeon am fywyd Cymru â'i holl amrywiaeth.

Dylai'r Senedd:

- 1 gadw pwyllgor â chylch gwaith sy'n cwmpasu **polisi cyfathrebu**
- 2 dylai'r pwyllgor hwnnw **gynnal ymchwiliad i rôl y cyfryngau cymdeithasol a chamwybodaeth** yn ystod etholiadau Senedd 2021.



Y cyd-destun cyfnewidiol

Mae data Awdit Cyfryngau 2020 yr IWA, ynghyd â barn arbenigwyr a gasglwyd trwy ein Uwchgynhadledd Cyfryngau, yn awgrymu bod y tueddiadau byd-eang sy'n effeithio ar sefydliadau cyfryngau mawr – gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – a'r ffordd y mae'r cyhoedd yn derbyn newyddion yn risg ac yn gyfle i Gymru.

Amlygodd yr Awdit hefyd gymaint yw maint a'r grym sydd gan sefydliadau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus megis y BBC, ITV ac S4C dros gynnwys newyddion sydd ar gael yng Nghymru. Mae'r newyddion hwn o ansawdd da ar y cyfan, a bu cynnydd arwyddocaol mewn cynnwys sy'n benodol i Gymru ers y pandemig er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaethau pwysig rhwng y rheolau yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig.

Mae'r gwelliant hwn mewn sylw yn gosod gwaelodlin newydd, y dylai'r cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus geisio gwella ymhellach arno unwaith y bydd y pandemig ar ben. Mae'r agwedd 'a nawr y newyddion ble rydych chi' tuag at sylw ar lefel rhanbarthol a'r cenhedloedd wedi dyddio yn y Deyrnas Unedig ddatganoledig. Y safon y dylid anelu amdani ydy cael tîm golygyddol penodol yn goruchwyllo darllediadau newyddion wedi'u gwneud ar gyfer Cymru, ble caiff newyddion ar lefel y Deyrnas Unedig ei adrodd trwy lens olygyddol sy'n deall datganoli.

Yn ogystal â materion sy'n ymwneud â phlwlraliaeth yn y cyfryngau, mae problemau eraill yn deillio o gael unrhyw genedl yn dibynnu cymaint ar nifer fechan o ddarparwyr mawr (boed rheiny'n fasnachol neu'n gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus). Er enghraifft, cafodd y ffaith bod y BBC yn ariannu gohebwy'r democratiaeth leol ei chrosawu a'i gweld fel cam cadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedodd rhanddeiliaid wrthym hefyd y bu effaith ganlyniadol bod darparwyr newyddion masnachol mawr wedi torri swyddi newyddiaduraeth a mynd i ddibynnu ar y swyddi a gyllidwyd gan y BBC i gael eu cynnwys. Mae hyn yn gwaethygu materion lle gwelir darparwyr newyddion masnachol yn torri swyddi, yn symud ffocws i gynnwys ar-lein ar gyfer cynulleidfau fawr (gydag arddull 'abwyd clicio' weithiau), ac yn canoli penderfyniadau golygyddol mewn ystafelloedd newyddion mewn lleoliadau oddi allan i Gymru.



Cefnogi newyddion lleol a chenedlaethol annibynnol, wedi'i wreiddio i Gymru

Rydym eisiau gweld newyddion sy'n cael ei wneud yng Nghymru sy'n cyfrannu at ddemocratiaeth gryf, hyderus trwy ddwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif. Felly dylai pwyslais polisi datganoledig fod ar dyfu rhwydweithiau o ddarparwyr newyddion annibynnol, wedi'u gwreiddio, sy'n gallu darparu sylw a dadansoddi ar lefel leol a chenedlaethol.

Mae angen i ni ragweld sut olwg fydd ar yr heriau byd-eang i ddarparu adnoddau a derbyn newyddion ymhen deng mlynedd. Mae nifer o resymau dros fod yn obeithiol heddiw, nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y data a gasglwyd yn ein Hawdit: megis lansio papurau newydd cenedlaethol newydd, a safleoedd newyddion annibynnol sy'n llai, ond sy'n denu nifer cynyddol o ddarllenwyr.

Fodd bynnag, ni allwn ddod i gasgliad hyderus eto bod 'methiant y farchnad' a nodwyd yn Awdit Cyfryngau 2015 a 2020 wedi ei gywiro. Os gwelir ei bod yn wir nad yw'r farchnad yng Nghymru yn gallu cynnal newyddion o ansawdd da wedi'i ddarparu gan sefydliadau masnachol mawr, yna yr hyn ddylai fod yn ffocws ar gyfer polisi ydy cefnogi newyddion 'lleol', 'annibynnol'.

Dim ond rheolaeth gyfyngedig sydd gan Gymru dros yr hyn y bydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a sefydliadau masnachol yn ei wneud, ond serch hynny, mae o fewn grym Llywodraeth Cymru i wneud mwy trwy ddefnydd gofalus o gyllid grant.

Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru **greu cronfa sy'n agored i gystadleuaeth ar gyfer newyddion annibynnol** yn cynnwys o leiaf £1m y flwyddyn ar gyfer cynyddu faint o newyddion lleol a geir mewn print, ar-lein neu ar radio.

Dylai'r gronfa:

- gefnogi sylw ffeithiol a dadansoddol i faterion lleol a chenedlaethol, gan endidau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes
- cyllido capasiti ar gyfer newyddiaduraeth ymchwiliol
- buddsoddi mewn sgiliau ac adnoddau a rennir er mwyn tyfu economi gyfryngau Cymru yn y tymor hir
- cael ei rhedeg gan gorff hyd-braich er mwyn sicrhau annibyniaeth rhag gweinidogion
- sicrhau rôl i wrthbleidiau a Chomisiwn y Senedd yn llywodraethiant y corff hwn.

Yr egwyddor allweddol a ddylai fod yn sail i'r gronfa ydy ei bod yn **agored i gystadleuaeth**, ac i'r graddau mwyaf posib, y dylai fod yn agnostig ynglŷn â'r union weithgareddau y dylai eu cyllido. Yn hytrach, dylai gyllido gweithgareddau sy'n gallu bodloni gofynion ynglŷn ag ansawdd y sylw, ac sy'n gallu cyfrannu at leihau'r diffyg democrataidd.

Rydym yn sylweddoli bod elfen o risg ynghlwm ag unrhyw symudiad tuag at gael y llywodraeth yn ymhél â newyddiaduraeth - risg o 'wasgu' darparwyr masnachol yn y farchnad neu o ymyrraeth weinidogol wirioneddol neu ganfyddedig gydag annibyniaeth olygyddol. Rydym yn argymhell felly y dylai'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y corff hwn gael eu datblygu ar sail trawsbleidiol, ac y dylai trefniadau trawsbleidiol fod ynghlwm ag, er enghraifft, penodiadau i gorff llywodraethu'r sefydliad.

Hyd nes y ceir tystiolaeth bod y farchnad yng Nghymru yn gallu cynnal newyddion o ansawdd ar sail fasnachol, dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r egwyddor ei bod yn ymrwymedig i gyllido'r sefydliadau newyddiadurol hyn ar sail barhaus, yn hytrach na'u galluogi i gyrraedd sefyllfa ble maent yn cyllido'u hunain.



Datganoli darlledu?

Nid yw Cymru'n unigryw o safbwynt cael ei heffeithio gan dueddiadau byd-eang mewn cynhyrchu a derbyn newyddion, ond mae mewn sefyllfa unigryw i ryw raddau gan ei bod yn genedl nad yw'n gallu rheoli ei chyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ei hun.

Mae dadl bwysig y dylid ei chael ynglŷn â ble dylai pwerau dros reoleiddio a pholisi darlledu orwedd, ac mae Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg y Senedd ddiwethaf wedi gwneud argymhellion ynglŷn â datganoli yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i ymwrthod â'r syniad na ddylid datganoli unrhyw beth yn y maes hwn oni bai bod popeth yn cael ei ddatganoli. Mae'n eithriadol bod gan genedl gyn lleied o reolaeth dros ei pholisi cyfryngau ei hun. Yn ein barn ni, y ddadl y dylid ei chael ynglŷn â datganoli yn y dyfodol ydy pa bwerau ellid eu datganoli ac at ba ddiben.

Ar yr un pryd, mae'r angen am well darpariaeth yn un brys. Felly, hyd yn oed petai Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru yn dod i gytundeb ynglŷn â datganoli rhagor o bwerau (sy'n debygol o fod yn dipyn o her yn wleidyddol), byddai deddfu i gyflawni hyn yn cymryd cryn amser, a byddai trefnu'r adnoddau a sefydlu swyddogaeth i'w ddarparu yn cymryd mwy fyth o amser.

Dylem nodi hefyd nad yw rheoleiddio yn unig yn debygol o ddatrys y materion hyn sy'n ein hwynebu ers cryn amser ac sydd â'u gwreiddiau i raddau helaeth yn y tueddiadau ynglŷn â'r ffordd y derbynnir newyddion, ac nid mewn polisi a rheoleiddio yn unig.

Argymhelliad

Mae'r IWA o'r farn, tra dylai'r prif sylw yng Nghymru fod ar flaenoriaethu gweithredu o dan y pwerau presennol, dylai Llywodraeth nesaf Cymru geisio trafodaeth adeiladol gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn ag agweddau penodol ar bolisi darlledu y dylid eu datganoli er mwyn **gwella atebolrwydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i'r Senedd.**

Economi gyfryngau ffyniannus

Mae'r diwydiannau creadigol yn rhan gynyddol lwyddiannus o economi Cymru, ac yn sector sydd wedi cael ei heffeithio'n arbennig o wael gan y cyfyngiadau teithio, a chau lleoliadau oherwydd Covid-19. Yn ogystal â'u budd economaidd, mae'r diwydiannau creadigol yn rhan bwysig o'r ffordd y mae pobl yng Nghymru yn gweld eu hunain yn cael eu portreadu, a'r ffordd y mae straeon Cymru yn cael eu hadrodd i'r byd.

Credwn fod rôl amlwg i Gymru Greadigol, wedi Covid, i fod yn gartref i strategaeth economaidd newydd i ddatblygu sector diwydiannau creadigol gydnherth a ffyniannus, sy'n cyfrannu at agenda gwerth cymdeithasol ehangach.

Dylai hyn, yn ei dro, gael ei oruchwyllo gan y swyddfa ganolog ar gyfer datblygu economaidd a gynhigiwyd gennym yn ein dogfen [Blaenoriaethau Economaidd](#).

Argymhelliad

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddatblygu ar sylfeini llwyddiant Cymru Greadigol ers ei sefydlu, a rhoi'r adnoddau a'r awdurdod iddo i ddatblygu strategaeth newydd uchelgeisiol ar gyfer y diwydiannau creadigol.

Dylai'r strategaeth hon sicrhau'r amcanion canlynol sy'n cryfhau ei gilydd:

- **tryloywder** ynglŷn â'r ffordd y caiff cyllid ei ddyrannu, yn gysylltiedig ag amcanion strategol amlwg, gyda phroses ymgeisio agored a hygyrch sy'n darparu maes chwarae gwastad rhwng cynhyrchwyr annibynnol bach Cymru a chystadleuwyr mwy
- rôl amlwg yn **llysgennad dros Gymru** fel cartref i'r cyfryngau, nid yn unig yn gwario ei gyllid ei hun, ond â rôl brocer, er enghraifft pan fydd llefydd yng Nghymru yn cystadlu i fod yn gartref i ganolfannau mawr newydd ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus
- yn ogystal â chefnogi cynyrchiadau unigol, dylai Cymru Greadigol **fuddsoddi mewn sgiliau, adnoddau, prosesau ac asedau a rennir** y bydd yr holl gynhyrchwyr yn gallu cael budd ohonynt. Mae hyn yn golygu blaenoriaethu cynyrchiadau sy'n gadael gwaddol parhaol o welliannau i gystadleurwydd sector sgrin Cymru.

Deall rôl y cyfryngau cymdeithasol yn nemocratiaeth Cymru

Cafwyd honiadau cwbl gredadwy o ddefnydd amheus o gyfryngau cymdeithasol i ddylanwadu ar etholiadau ar draws gwledydd y Gorllewin. Nid ydym yn credu bod lledaeniad twyllwbyodaeth a chamwybodaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn rhywbeth y gall Cymru fod yn ddi-hid amdano. Ni ddylem gymryd yn ganiataol nad yw hyn yn digwydd yma.

Dylai pob plaid ddatgan yn gwbl eglur bod hyn yn nodwedd annerbyniol o ddemocratiaeth fodern – dim ots pwy sy'n elwa'n etholiadol. Dylent ymrwymo i gefnogi ymchwiliad i fwrw goleuni ar pa un ai yw'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd amheus neu anghyfreithlon gan Bwyllgor Cyfathrebu'r Senedd nesaf.

Mae'n hollbwysig y dylent ymrwymo i gefnogi ymchwiliad o'r fath cyn y byddwn yn gwybod canlyniadau'r etholiad.

Nid tanseilio'r canlyniad fyddai'r bwriad, ond cael gwell dealltwriaeth ynglŷn â sut y gallwn gynnal etholiadau rhydd a theg unwaith eto, ble bydd yr holl ymgyrchwyr yn chwarae yn ôl yr un rheolau.

Argymhelliad

Dylai'r Senedd nesaf gadw pwyllgor â chyfrifoldeb dros ystyried polisi cyfathrebu, gan ymgorffori darlledu, newyddiaduraeth, a'r cyfryngau cymdeithasol (olynydd i Bwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu).

Dylai'r pwyllgor hwn gynnal **ymchwiliad i etholiadau Senedd 2021**, er mwyn deall a fu ymyrraeth neu ddefnydd amhriodol o'r cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â'r etholiad hwn.



